



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 714 (Cy. 160)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd
y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru)
(Diwygio) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor; mae'r rhain yn ymwneud â gwybodaeth y mae rhaid ei darparu gan ddefnyddio ffurflen ar lein a chyfnod ynysu mandadol o 14 o ddiwrnodau. Mae'r gofynion hyn yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio, gan gynnwys personau sy'n teithio o'r ardal deithio gyffredin.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i estyn yr esemttiadau rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth; ac i estyn yr esemttiadau a'r eithriadau rhag y gofyniad i ynysu (rheoliadau 3 i 6).

2020 No. 714 (W. 160)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Public Health Information to
Travellers) (Wales) (Amendment)
Regulations 2020

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 ("the International Travel Regulations"); and the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 ("the Public Health Information Regulations").

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad; these relate to information that must be provided using an online form and a mandatory isolation period of 14 days. These requirements are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply, including persons travelling from the common travel area.

Part 2 of these Regulations amends the International Travel Regulations to extend the exemptions from the requirement to provide information; and to extend the exemptions and exceptions from the requirement to isolate (regulations 3 to 6).

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhynghladol i esemptio categoriâu penodol o weithwyr – y rheini sy'n teithio'n rheolaidd ond nad ydynt fel rheol yn cyfarfod teithwyr – rhag gorfol cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ar lein.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhynghladol i estyn yr esemptiad rhag y gofyniad i ynysu. Yn rhinwedd y diwygiadau hyn, ni fydd yn ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhynghladol (fel y'i mewnosodir gan yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn). Mae'r diwygiadau yn cyfeirio at y gwledydd a'r tiriogaethau hyn, ynghyd â gwledydd a thiriogaethau'r ardal deithio gyffredin, fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Ond mae estyn yr esemptiad i'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol a wneir gan reoliad 7. Mae hyn yn cadw effaith y Rheoliadau Teithio Rhynghladol ar y ffurf yr oeddent cyn eu diwygio, mewn perthynas â phersonau a gyraeddodd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno yn ystod y cyfnod o ddwy wythnos cyn 10 Gorffennaf 2020 (sef y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym); dyma sy'n digwydd hyd yn oed os yw'r man o dan sylw yn wlad neu'n diriogaeth esempt o 10 Gorffennaf 2020 ymlaen.

Pan fo personau o'r fath yng Nghymru neu'n cyrraedd Cymru yn ystod y cyfnod o ddwy wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y daethant i'r ardal deithio gyffredin (sef y Deyrnas Unedig, Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw), byddant yn ddarostyngedig i'r rheolau o ran ynysu a osodir gan Ran 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhynghladol fel yr oedd y rheolau hynny cyn 10 Gorffennaf 2020.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 5 yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon elît penodol, ac maent wedi eu cynnwys er mwyn galluogi personau y mae'n ofynnol iddynt ynysu gan y Rheoliadau Teithio Rhynghladol i adael y fangre y maent yn ynysu ynddi am resymau sy'n ymwneud â'r ffaith eu bod yn ymwneud â'r digwyddiadau hynny.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys diwygiadau amrywiol i Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhynghladol, sef yr Atodlen sy'n disgrifio categoriâu o bersonau sy'n esempt rhag gofynion y Rheoliadau Teithio Rhynghladol. Mae'r diwygiadau hyn naill ai'n addasu categoriâu sydd eisoes yn bodoli o bersonau neu'n ychwanegu categoriâu newydd o bersonau i'r Atodlen.

Regulation 3 amends the International Travel Regulations to exempt certain categories of worker – those who engage in regular travel but who typically do not encounter passengers – from having to comply with the requirement to provide information online.

Regulation 4 amends the International Travel Regulations to extend the exemption from the requirement to isolate. By virtue of these amendments, persons entering Wales after being in one or more of the countries listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations (as inserted by the Schedule to these Regulations) will not be required to isolate. These countries and territories, along with the countries and territories of the common travel area, are referred to in the amendments as "exempt countries and territories".

But the extension of the exemption for the countries and territories listed in Schedule 3 is subject to the transitional provision made by regulation 7. This preserves the effect of the International Travel Regulations in their unamended form, in relation to persons who, in the two-week period before 10 July 2020 (the date these Regulations came into force), arrived in the common travel area from a place outside that area; this is the case even if the place in question is, from 10 July 2020 onwards, an exempt country or territory.

Where such persons are in Wales or arrive in Wales during the two-week period starting with the day they entered the common travel area (which means the United Kingdom, Republic of Ireland, Channel Islands and the Isle of Man), they will be subject to the rules on isolation imposed by Part 3 of the International Travel Regulations as those rules stood before the 10 July 2020.

The amendments made by regulation 5 relate to certain elite sporting events, and are included to enable persons required to isolate by the International Travel Regulations to leave the premises at which they're isolating for reasons relating to the persons' involvement with those events.

Regulation 6 includes miscellaneous amendments to Schedule 2 to the International Travel Regulations, the Schedule which describes categories of person who are exempt from the requirements of the International Travel Regulations. These amendments either modify existing categories of person or add new categories of person to the Schedule.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn newid y cyfnod y mae rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o'i fewn, i gyfnod o 28 o ddiwrnodau yn hytrach na chyfnod o 21 o ddiwrnodau (rheoliad 8); ac yn gwneud mân ddiwygiadau amrywiol (rheoliad 9).

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau masnachol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar lestr neu awyren ddarparu gwybodaeth benodol i'r teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws, gan gynnwys mesurau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd gan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys mân newidiadau sy'n ymwneud â'r datganiad sydd i'w roi i deithwyr ar wasanaethau sy'n cyrraedd Cymru (rheoliad 10); a newid i estyn y cyfnod adolygu at ddibenion adolygiadau Gweinidogion Cymru o'r ddeddfwriaeth (rheoliad 11).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 2 of these Regulations also changes the period within which the Welsh Ministers must carry out reviews of the International Travel Regulations to a 28-day period instead of a 21-day period (regulation 8); and makes minor miscellaneous amendments (regulation 9).

The Public Health Information Regulations require the operators of commercial air or sea passenger services that arrive in Wales to provide certain information to passengers using those services. The information relates to measures being taken in the United Kingdom in response to coronavirus, including measures required by the International Travel Regulations.

The amendments made to the Public Health Information Regulations by Part 3 of these Regulations include minor changes relating to the statement to be given to passengers travelling on services arriving in Wales (regulation 10); and a change to extend the review period for the purposes of the Welsh Ministers' reviews of the legislation (regulation 11).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 714 (Cy. 160)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd
y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru)
(Diwygio) 2020

Gwnaed am 10.20 a.m. ar 9 Gorffennaf 2020
Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 4.00 p.m. ar 9 Gorffennaf 2020
Yn dod i rym 10 Gorffennaf 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1
Cyffredinol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Gorffennaf 2020.

2020 No. 714 (W. 160)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Public Health Information to
Travellers) (Wales) (Amendment)
Regulations 2020

Made at 10.20 a.m. on 9 July 2020
Laid before Senedd
Cymru at 4.00 p.m. on 9 July 2020
Coming into force 10 July 2020

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

PART 1
General

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 10 July 2020.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd” (“*the Public Health Information Regulations*”) yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020(1);
ystyr “y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” (“*the International Travel Regulations*”) yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(2).

Interpretation

2. In these Regulations—

“the International Travel Regulations” (“*y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol*”) means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1);

“the Public Health Information Regulations” (“*y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd*”) means the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020(2).

RHAN 2

Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Esempriad rhag y gofyniad gwybodaeth i categorïau penodol o weithwyr

3.—(1) Yn Rhan 2 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth), mae rheoliad 3 wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (2), yn lle “person a ddisgrifir yn Rhan 1 o Atodlen 2” rhodder “—

- (a) person a ddisgrifir yn Rhan 1 o Atodlen 2,
- (b) person a ddisgrifir ym mharagraff 12(1)(b) o Atodlen 2 (gweithwyr gweithredol, cynnal a chadw a diogelwch sy'n gweithio ar Dwnnel y Sianel), neu
- (c) person a ddisgrifir ym mharagraff (3), y mae'r amod ym mharagraff (4) wedi ei fodloni mewn cysylltiad ag ef.”

(3) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Y disgrifiadau o bersonau yw—

- (a) person sy'n weithiwr cludiant teithwyr ffyrdd, o fewn ystyr paragraff 6 o Atodlen 2;
- (b) person a ddisgrifir ym mharagraff 7 o Atodlen 2 (meistri a morwyr);
- (c) person a ddisgrifir ym mharagraff 8 o Atodlen 2 (peilotiaid ar longau masnach);

PART 2

Amendments to the International Travel Regulations

Exemption from information requirement for certain categories of worker

3.—(1) In Part 2 of the International Travel Regulations (requirement to provide information), regulation 3 is amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In paragraph (2) for “a person described in Part 1 of Schedule 2” substitute “—

- (a) a person described in Part 1 of Schedule 2,
- (b) a person described in paragraph 12(1)(b) of Schedule 2 (operational, maintenance and security workers working on the Channel Tunnel), or
- (c) a person described in paragraph (3), in respect of whom the condition in paragraph (4) is met.”

(3) After paragraph (2) insert—

“(3) The descriptions of person are—

- (a) a person who is a road passenger transport worker, within the meaning of paragraph 6 of Schedule 2;
- (b) a person described in paragraph 7 of Schedule 2 (masters and seamen);
- (c) a person described in paragraph 8 of Schedule 2 (pilots involved in merchant shipping);

(1) O.S. 2020/595 (Cy. 136).

(2) O.S. 2020/574 (Cy. 132).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132).

(2) S.I. 2020/595 (W. 136).

- (d) person a ddisgrifir ym mharagraff 9 o Atodlen 2 (arolygwyr a syrfewyr llonau);
- (e) person a ddisgrifir ym mharagraff 10 o Atodlen 2 (criw awyren);
- (f) person a ddisgrifir ym mharagraff 12(1)(a) neu (c) o Atodlen 2 (gyrwyd, criw a phersonau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau hanfodol mewn cysylltiad â Thwnnel y Sianel).

(4) Mae'r amod a grybwylir ym mharagraff (2)(c) wedi ei fodloni mewn perthynas â pherson os nad yw'r person, ar ei daith i Gymru, ond wedi teithio—

- (a) ar long neu awyren nad yw'n cludo teithwyr;
- (b) mewn rhan o long neu awyren nad yw teithwyr yn cael mynd iddi.”

Esempriad rhag y gofyniad i ynysu i bersonau sy'n teithio o wledydd a thiriogaethau penodol y tu allan i'r ardal deithio gyffredin

4.—(1) Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhwngwladol (gofyniad i ynysu etc.) wedi ei diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Yn rheoliad 7 (gofyniad i ynysu: cyrraedd o fan y tu allan i'r Deyrnas Unedig)—

- (a) ym mharagraff (1)(a), yn lle “fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin” rhodder “wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt”;
- (b) ym mharagraff (1)(b)(i), yn lle “Weriniaeth Iwerddon, Nysoedd y Sianel neu Ynys Manaw” rhodder “wlad neu diriogaeth esempt nad yw'n rhan o'r Deyrnas Unedig”;
- (c) ym mharagraff (1)(b)(ii), yn lle “sydd wedi cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno” rhodder “sydd wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt”.

(3) Yn rheoliad 8 (gofyniad i ynysu: cyrraedd o ran arall o'r Deyrnas Unedig), ym mharagraff (1)(b), yn lle “cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno” rhodder “bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt”.

(4) Yn rheoliad 9 (gofynion ynysu: esempiadau)—

- (a) mae'r testun presennol yn dod yn baragraff (2);
- (b) o flaen y paragraff hwnnw mewnosoder—
“(1) At ddibenion y Rhan hon, ystyr “gwlad neu diriogaeth esempt” yw—

- (d) a person described in paragraph 9 of Schedule 2 (inspectors and surveyors of ships);
- (e) a person described in paragraph 10 of Schedule 2 (crew on aircraft);
- (f) a person described in paragraph 12(1)(a) or (c) of Schedule 2 (drivers, crew and other persons performing essential functions in relation to the Channel Tunnel).

(4) The condition mentioned in paragraph (2)(c) is met in relation to a person if the person has, on their journey to Wales travelled only—

- (a) on a ship or aircraft which does not carry passengers;
- (b) in an area of a ship or aircraft which is not accessed by passengers.”

Exemption from isolation requirement for persons travelling from certain countries and territories outside the common travel area

4.—(1) Part 3 of the International Travel Regulations (requirement to isolate etc.) is amended in accordance with paragraphs (2) to (5).

(2) In regulation 7 (requirement to isolate: arrivals from outside the United Kingdom)—

- (a) in paragraph (1)(a), for “place outside the common travel area” substitute “non-exempt country or territory”;
- (b) in paragraph (1)(b)(i), for “the Republic of Ireland, the Channel Islands or the Isle of Man” substitute “an exempt country or territory that is not part of the United Kingdom”;
- (c) in paragraph (1)(b)(ii), for “arrived in the common travel area from a place outside that area” substitute “been in a non-exempt country or territory”.

(3) In regulation 8 (requirement to isolate: arrivals from another part of the United Kingdom), in paragraph (1)(b), for “arrived in the common travel area from a place outside that area” substitute “been in a non-exempt country or territory”.

(4) In regulation 9 (isolation requirements: exemptions)—

- (a) the existing text becomes paragraph (2);
- (b) before that paragraph insert—

“(1) For the purposes of this Part, “exempt country or territory” means—

- (a) gwlad neu diriogaeth o fewn yr ardal deithio gyffredin;
- (b) gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3;

ac mae unrhyw gyfeiriad at “gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt” i'w ddehongli yn unol â hynny.”

(5) Yn rheoliad 12 (ystyr “diwrnod olaf yr ynysu” yn Rhan 3), yn lle “y cyrhaeddodd P yn yr ardal deithio cyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno” rhodder “yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf”.

(6) Yn Rhan 1 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol), yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw person sy'n cyrraedd gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt (o fewn ystyr rheoliad 9(1)) ar long neu awyren i'w drin fel pe bai wedi bod yn y man hwnnw oni bai—

- (a) bod y person yn dod oddi ar y llong neu'r awyren pan fo yn y man, neu
- (b) pan na fo'r person yn dod oddi ar y llong neu'r awyren pan fo yn y man, bod unrhyw deithwyr eraill yn mynd ar y llong neu'r awyren yn y man.”

(7) Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwybodaeth am deithiwr), ar ôl paragraff 2(i) mewnosoder—

“(ia)unrhyw wlad neu diriogaeth arall y bydd P ynnddi, neu y mae P wedi bod ynnddi, yn ystod y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae P yn cyrraedd y Deyrnas Unedig, neu y mae'n bwriadu cyrraedd y Deyrnas Unedig,

(ib) pan fo is-baragraff (ia) yn gymwys, y dyddiadau yr oedd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall neu y bydd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall.”.

(8) Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn ychwanegu Atodlen 3 newydd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Eithriadau i'r gofynion ynysu: personau sy'n ymwneud â gweithgareddau chwaraeon penodol

5.—(1) Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (eithriadau i'r gofynion ynysu) wedi ei ddiwygio yn unol ag is-baragraffau (a) i (c)—

- (a) ym mharagraff (3)—

- (a) a country or territory within the common travel area;
- (b) a country or territory listed in Schedule 3;

and any reference to a “non-exempt country or territory” is to be interpreted accordingly.”

(5) In regulation 12 (meaning of “last day of isolation” in Part 3), for “arrived in the common travel area from a place outside that area” substitute “was last in a non-exempt country or territory”.

(6) In Part 1 of the International Travel Regulations (provision of general application), in regulation 2 (interpretation), after paragraph (3) insert—

“(4) For the purposes of these Regulations, a person who arrives by ship or aircraft in a non-exempt country or territory (within the meaning of regulation 9(1)) is not to be treated as having been in that place unless—

- (a) the person disembarks from the aircraft or ship while it is at the place, or
- (b) where the person remains on the ship or aircraft while it is at the place, any other passengers embark on the aircraft or ship at the place.”

(7) In Schedule 1 to the International Travel Regulations (passenger information), after paragraph 2(i) insert—

“(ia)any other country or territory P will be, or has been, in during the period of 14 days ending with the date of P's arrival, or planned arrival, in the United Kingdom,

(ib) where sub-paragraph (ia) applies, the dates on which P was or will be in the other country or territory.”.

(8) Paragraph 1 of the Schedule adds a new Schedule 3 to the International Travel Regulations.

Exceptions to isolation requirements: persons engaged in certain sporting activities

5.—(1) Regulation 10 of the International Travel Regulations (exceptions to isolation requirements) is amended in accordance with sub-paragraphs (a) to (c)—

- (a) in paragraph (3)—

- (i) yn y testun Cymraeg yn unig, yn lle'r geriau o "i'r Deyrnas Unedig" hyd y diwedd rhodder "i Gymru dros dro at ddiben a awdurdodir gan baragraff (4)(b) i (k).";
- (ii) yn y testun Saesneg yn unig, yn lle "(j)" rhodder "(k)";
- (b) ar ôl paragraff (4)(j) mewnosoder—
 - "(ja) pan fo P yn cystadlu mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4 neu'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu mewn digwyddiad o'r fath, i gymryd rhan yn y digwyddiad neu i ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;
 - (jb) pan fo P yn gwasanaethu fel swyddog mewn digwyddiad chwaraeon o'r fath, neu'n ymwneud â'i gynnal, i fynd i'r digwyddiad neu i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu fel swyddog neu gynnal y digwyddiad;
 - (jc) pan fo P, yng nghwrs ei waith, yn ymwneud â darlledu digwyddiad chwaraeon o'r fath, i fynd i'r digwyddiad at ddiben y darllediad neu i ymgymryd â gweithgareddau paratoi sy'n gysylltiedig â darlledu'r digwyddiad;
 - (jd) pan fo P, yng nghwrs ei waith, yn ymwneud â gweithgarwch newyddiadurol mewn digwyddiad chwaraeon o'r fath, i fynd i'r digwyddiad at ddiben ymgymryd â'r gweithgarwch hwnnw;
 - (je) pan fo P yn athletwr elît sy'n preswylio yng Nghymru ac yn dychwelyd o gystadleuaeth elît dramor, i hyfforddi neu gystadlu;
 - (jf) pan fo P yn darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît sy'n preswylio yng Nghymru a bod P yn dychwelyd o gystadleuaeth elît dramor pan oedd P yn darparu hyfforddiant neu gymorth arall o'r fath i athletwr, i ddarparu'r hyfforddiant neu'r cymorth arall hwnnw;
 - (jg) pan fo P yn dychwelyd o gystadleuaeth elît dramor yr oedd P yn gwasanaethu fel swyddog ynddi, neu'n ymwneud â'i chynnal, i wasanaethu fel swyddog mewn cystadleuaeth elît ddomestig neu i ymwneud â'i chynnal;"
- (i) in the Welsh language text only, for the words from "i'r Deyrnas Unedig" to the end substitute "i Gymru dros dro at ddiben a awdurdodir gan baragraff (4)(b) i (k).";
- (ii) in the English language text only, for "(j)" substitute "(k)";
- (b) after paragraph (4)(j) insert—
 - "(ja) where P is competing in a sporting event specified in Schedule 4 or providing coaching or other support to a person who is competing in such an event, to participate in the event or to undertake training or other activities connected to the event;
 - (jb) where P is officiating at, or is involved in running, such a sporting event, to attend the event or to undertake activities connected to officiating or running the event;
 - (jc) where P is, in the course of P's work, involved in broadcasting such a sporting event, to attend the event for the purpose of the broadcast or to undertake preparatory activities connected to broadcasting of the event;
 - (jd) where P is, in the course of P's work, involved in journalistic activity at such a sporting event, to attend the event for the purpose of undertaking that activity;
 - (je) where P is a Welsh resident elite athlete returning from an overseas elite competition, to train or compete;
 - (jf) where P provides coaching or other support to a Welsh resident elite athlete and P is returning from an overseas elite competition where P was providing coaching or other such support to an athlete, to provide that coaching or other support;
 - (jg) where P is returning from an overseas elite competition at which P was officiating, or involved in running, to officiate at, or be involved in running, a domestic elite competition;"

- (c) ym mharagraff (8)—
- (i) yn y testun Cymraeg yn unig, mae'r testun presennol sy'n ymddangos ar ôl y geiriau "y rheoliad hwn—" yn dod yn is-baragraff (a),
 - (ii) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—
 - "(b) ystyr "cystadleuaeth élit ddomestig" yw cystadleuaeth élit sy'n cael ei chynnal yn y Deyrnas Unedig;
 - (c) ystyr "cystadleuaeth élit" yw cystadleuaeth chwaraeon lle y mae unrhyw un neu ragor o'r cyfranogwyr yn cystadlu—
 - (i) i ennill bywoliaeth, neu
 - (ii) i gymhwysu ar gyfer y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd neu Gemau'r Gymanwlad, neu fel rhan o broses ddehol ar gyfer hynny;
 - (d) ystyr "cystadleuaeth élit dramor" yw cystadleuaeth élit sy'n cael ei chynnal y tu allan i'r Deyrnas Unedig; ac mae P i'w drin fel pe bai'n dychwelyd o'r gystadleuaeth honno os yw P, o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â diwrnod ynysu olaf P, wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt at ddibenion y gystadleuaeth honno;
 - (e) ystyr "athletwr élit sy'n preswylio yng Nghymru" yw person sy'n preswylio yng Nghymru fel arfer ac—
 - (i) yn ennill bywoliaeth o gystadlu mewn camp, neu
 - (ii) yn athletwr élit o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 1 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 1) 2020 (O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)), Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/529 (Cy. 124)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/557 (Cy. 129)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/619 (Cy. 141)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/686 (Cy. 153)).
- (c) in paragraph (8)—
- (i) in the Welsh text only, the existing text that appears after the words "y rheoliad hwn—" becomes sub-paragraph (a),
 - (ii) after sub-paragraph (a) insert—
 - "(b) "domestic elite competition" means an elite competition taking place in the United Kingdom;
 - (c) "elite competition" means a sporting competition at which any of the participants compete—
 - (i) to derive a living, or
 - (ii) to qualify for, or as part of a selection process for, the Olympics, Paralympics or Commonwealth Games;
 - (d) "overseas elite competition" means an elite competition taking place outside the United Kingdom; and P is to be treated as having returned from such a competition if P has within the period of 14 days ending with P's last day of isolation, been in a non-exempt country or territory for the purposes of such a competition;
